cwmni

Egino

EIN HUCHAFBWYNTIAU O 2024

RHAGFYR 2024

BWRW GOLWG DROS Y FLWYDDYN A FU

Mae'n anodd credu bod 2025 bron yma.

Mae 2024 wedi bod yn flwyddyn brysur a phleserus i Gwmni Egino ac mae wedi bod yn fraint gweithio gyda chymaint o bobl wych.

Er bod datblygu prosiectau niwclear yn aml yn teimlo fel ymdrech hirfaith, mae wedi bod yn dda gweld cynnydd yn y sector eto eleni - er enghraifft, prynu safle Wylfa, parhad y gystadleuaeth Adweithyddion Modiwlaidd Bach (SMR), a buddsoddiad mewn tanwydd Haleu.

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y flwyddyn ac edrych ymlaen at y nesaf, dyma uchafbwyntiau Cwmni Egino o'r deuddeg mis diwethaf.

1 DADLAU'R ACHOS DROS DDENU BUDDSODDIAD

PROSPECTWS NIWCLEAR I GYMRU

Gyda buddsoddiad sylweddol yn debygol o gael ei wneud mewn ynni niwclear dros y degawdau nesaf mae cyfle enfawr i Gymru, ac mae Gogledd Cymru mewn sefyllfa gref i yrru twf economaidd o niwclear. Ar ben hynny, byddai buddsoddiad niwclear yn cefnogi bywiogrwydd hirdymor cymunedau ac yn gwella eu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer y dyfodol.

Rydyn ni eisiau sicrhau cyfran deg o fuddsoddiad niwclear y DU i Gymru, gan gydnabod na fydd yn glanio ar ein hysgwydd. Mae angen eiriolaeth gref arnom ar lefel wleidyddol yn ogystal â chefnogaeth draws-sectoraidd, ledled y rhanbarth i alluogi i bethau ddigwydd.

Mae Cwmni Egino wedi cyhoeddi 'Gogledd Cymru: Parod am Niwclear: Prosbectws ar gyfer Buddsoddiad yn y Dyfodol' sy'n crynhoi llawer o'n gwaith hyd yma yn ogystal ag ymdrechion rhanddeiliaid eraill ar draws y sector niwclear a'r rhanbarth. Mae'r ddogfen yn dangos sut y gallai Cymru fanteisio ar y twf a ragwelir yn sector niwclear sifil y DU, gan gyflwyno'r achos dros ddod â niwclear newydd i Ogledd Cymru a thynnu sylw at yr hyn sydd gan y rhanbarth i'w gynnig.

Mae'r Prospectws ar gael trwy ddilyn y cod QR, neu ewch i'n gwefan: www.cwmniegino.wales

2 HYRWYDDO OPSIYNAU AR GYFER TRAWSFYNYDD

GWAITH NODWEDDU SAFLE AC YMGYSYLLTU GYDA'R FARCHNAD

Cyflwynodd Cwmni Egino gynnig Busnes i Lywodraeth Cymru a'r DU yn 2023, gan amlinellu sut y gellid datblygu niwclear ar raddfa fach ar safle Trawsfynydd, ac o bosibl iddo fod yn un o'r safleoedd cyntaf yn y DU ar gyfer Adweithyddion Modiwlaidd Bach (SMR).

Daeth i'r amlwg yn gynharach eleni nad yw Great British Nuclear (GBN) yn ffafrio Traws ar gyfer y don gyntaf o brosiectau SMR - sy'n golygu ei bod yn annhebygol y bydd ein gweledigaeth wreiddiol yn cael ei gwireddu fel rhan o raglen GBN. Fodd bynnag, mae'n bwysig diogelu'r opsiwn ar gyfer y tymor hir, ac mae ein gwaith yn cryfhau'r achos dros ddod â phrosiect niwclear newydd i'r safle yn y dyfodol.

Eleni, gwnaethom ragor o waith i nodweddu tir ar y safle sy'n eiddo i'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear (NDA) gan edrych ar agweddau megis argaeledd tir, ecoleg, treftadaeth a thopograffeg. Cynhyrchwyd Pecyn Gwybodaeth Safle i'w rannu gyda'r farchnad (e.e. datblygwyr technoleg) i archwilio a oes diddordeb yn y sector preifat mewn symud prosiect yn ei flaen.

Rydyn ni'n parhau i fod yn ymroddedig i hyrwyddo unrhyw ymdrechion i ddod â buddion i'r ardal, a sicrhau bod y safle'n un deniadol ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol. Rydym yn cefnogi gwaith dichonoldeb Prosiect ARTHUR Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect radioisotopau meddygol arfaethedig yn Nhraws, yn ogystal â chyfrannu at drafodaethau cynnar ynghylch cyfleuster ar ffurf parc gwyddoniaeth ar y safle, neu'n agos ato, i fanteisio ar gyfleoedd o ddadgomisiynu, ynghyd â chynhyrchu pŵer niwclear a radioisotopau yn y dyfodol.

3 DEALL Y GADWYN GYFLENWI

ASTUDIAETH CADWYN GYFLENWI NIWCLEAR CYMRU

Ym mis Ebrill, comisiynodd Cwmni Egino Gardiner & Theobald i gynnal astudiaeth o'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru i gael gwell dealltwriaeth o allu, capasiti ac awydd cwmnïau Cymreig i weithio yn y sector niwclear - yn awr ac yn y dyfodoll. Un o brif ddibenion yr astudiaeth oedd cefnogi ymdrechion traws-sectoraidd, rhanbarthol i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi ac i ymgysylltu â'r farchnad.

Byddwn yn cyhoeddi'r astudiaeth yn y flwyddyn newydd a'i rhannu'n eang er mwyn annog trafodaethau am sut y gallwn gydweithio i gefnogi pobl a busnesau yng Ngogledd Cymru i fanteisio ar y cyfleoedd o fewnfuddsoddiad sy'n gysylltiedig â niwclear.

Mae'r astudiaeth wedi canfod bod 345 o gwmnïau o Gymru yn gweithio yn y sector niwclear ar hyn o bryd, gyda tua £160m o werthiannau bob blwyddyn. O'r rhain, mae 114 wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru, gydag oddeutu £63M yn flynyddol i'r economi ranbarthol.

£23-26bn
cyfanswm capasiti y cyflenwyr posib yng Nghymru

10,900+
o gyflenwyr niwclear posib yng Nghymru

*Nid yw hyn yn cynnwys cyfraniad swyddfeydd rhanbarthol busnesau ledled y DU sydd â'u pencadlys y tu allan i Gymru.

4 MEITHRIN CYSYLLTIADAU

SGYRSIAU YSTYRLON GYDA'N RHANDDEILIAID

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal dros 300 o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid ac wedi mynychu dros 30 o ddigwyddiadau o fewn y rhanbarth a'r sector. Ond nid nifer y cyfarfodydd sydd o bwys, ond ansawdd a natur adeiladol y trafodaethau a gafwyd.

Ni ellir cyflawni ein cenhadaeth i sicrhau buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trwy niwclear newydd ar ein pennau ein hunain; dim ond drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill y gellir ei gwireddu.

Rydym yn falch iawn o fod wedi sefydlu perthynas gydag amrediad eang o randdeiliaid - yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac ar draws sectorau - ac rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth barhaus a'r ymgysylltiad cydweithredol ag eraill sydd hefyd yn gweithio tuag at greu'r amodau ar gyfer Gogledd Cymru ffyniannus.



5 RHOI EIN HEGWYDDORION AR WAITH

GWERTH CYMDEITHASOL AC YMGYSYLLTU

Ein nod creiddiol yw creu gwerth cymdeithasol a helpu i wneud Gogledd Cymru yn lle deniadol i fyw a gweithio, lle mae cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy i bobl, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym wedi cyhoeddi Llawlyfr Gwerth Cymdeithasol sy'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i helpu i alluogi Gogledd Cymru i elwa'n llawn ar fuddsoddiad niwclear yn y dyfodol. Mae hyn yn mynd law yn llaw â Llawlyfr Ymgysylltu sy'n rhoi arweiniad i sicrhau bod pob agwedd ar ein gweithgarwch ymgysylltu yn bwrpasol, ystyrlon ac yn cefnogi ein cenhadaeth graidd.

Rydym yn gobeithio y bydd ein fframwaith yn ysbrydoli ac yn dylanwadu ar eraill yn y sector niwclear a thu hwnt i ddylunio a chyflawni prosiectau, o'r dechrau i'r diwedd, mewn ffordd sy'n parchu ac yn hyrwyddo anghenion a dyheadau cymunedau.

Mae Llawlyfr Gwerth Cymdeithasol Cwmni Eginoar gael ar ein gwefan: www.cwmniegino.wales/cyhoeddiadau

6 TACLUSO'R WYDDFA GYDA CARU ERYRI

CASGLU SBWRIEL AR GOPA UCHAF CYMRU

Dros yr haf, treuliodd y tîm ddiwrnod hynod bleserus yn casglu sbwriel ar fynydd uchaf Cymru gyda 'Caru Eryri' - menter wirfoddoli leol sy'n cael ei rhedeg gan Barc Cenedlaethol Eryri mewn cydweithrediad â Chymdeithas Eryri, y Bartneriaeth Awyr Agored a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Roedd yn bleser cefnogi ymdrechion y prosiect i liniaru effaith gynyddol ymwelwyr ar y Parc Cenedlaethol a helpu i gynnal harddwch eithriadol yr ardal i bawb ei mwynhau. Gweithgaredd a argymhellir yn fawr i feithrin ysbryd tîm a gwneud daioni ar yr un pryd!

Casglodd tîm Cwmni Egino 4.1kg o sbwriel a 0.7kg arall o sbwriel y gellir ei ailgylchu ar lwybr Llanberis Yr Wyddfa.

7 ADDYSGU POBL IFANC YN Y RHANBARTH

EHAGLEN EGNI STEM I YSGOLION

Ers 2023, mae Cwmni Egino, ochr yn ochr â Chyngor Gwynedd, wedi bod yn gweithio gyda M-SParc i ddatblygu a chyflwyno rhaglen allgymorth STEM Egni ar gyfer ysgolion yng Nwynedd a Môn gyda chyllid gan yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae wedi bod yn wych gweld y prosiect yn mynd o nerth i nerth eto eleni.

Dros gyfnod o ddeg wythnos, cyflwynir un o gwestiynau mwyaf heriol ein hoes i'r plant - sut gallwn ni rymuso ein cymunedau mewn ffordd gynaliadwy a chyfrifol ar gyfer y dyfodol? Drwy fynd i'r afael â'r her hon, mae'r rhaglen yn addysgu ac yn codi ymwybyddiaeth ymhlith plant ysgol am ffynonellau ynni niwclear ac ynni glân eraill, yn ogystal â'r opsiynau gyrfa sydd ar gael iddynt yn lleol yn y sector carbon isel.

Hyd yn hyn, mae tua 500 o blant mewn 20 o ysgolion lleol wedi cymryd rhan. Rydym wedi mwynhau bod yn rhan o'r rhaglen ac wedi cael ein hysbrydoli gan y syniadau a'r datrysiadau creadigol gan bobl ifanc y rhanbarth.

8 YMWELD Â HINKLEY POINT C

BLAS O'R HYN A ALLAI DDOD I'N RHANBARTH

Mae prosiect niwclear newydd Hinkley Point C, ar arfordir Gwlad yr Haf, yn enghraifft go iawn o sut y gall datblygiadau niwclear newydd hybu economïau rhanbarthol a chefnogi cymunedau lleol.

Cawsom y cyfle i ymweld â'r safle ym mis Hydref, ac i weld drosom ein hunain y bwrlwm o weithgaredd a grëwyd gan y prosiect. O siarad â staff sydd o'r ardal, roedd yn amlwg cymaint o wahaniaeth y mae buddsoddiad o'r fath wedi'i wneud i'w cymunedau.

Fe ddaru ni fwynhau'r ymweliad yn fawr iawn ac roedd yn anhygoel gweld sgôp y gwaith adeiladu ar y safle. Rydyn ni'n awr yn fwy penderfynol nag erioed o wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod Gogledd Cymru yn gweld gweithgarwch tebyg yn y dyfodol.

9 GWEITHIO GYDA PHRIFYSGOL BANGOR

DATBLYGU EIN PERTHYNAS STRATEGOL

Rydym wedi sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) gyda Phrifysgol Bangor i ddatblygu ein perthynas strategol ac adeiladu ar ein hymrwymiad cyffredin i lwyddiant ein gilydd ac i iechyd, lles ac economi Gogledd Cymru ac yn ehangach.

Rydym yn falch o gael Prifysgol mor flaengar ar garreg ein drws. Mae ganddi gymuned ymchwil ddwys sy'n arbenigo, ymhlith meysydd eraill, mewn dulliau carbon isel o gynhyrchu, storio a monitro mewn perthynas ag ynni. Mae hefyd yn gartref i'r Sefydliad Dyfodol Niwclear (NFI) byd-enwog sy'n arwain y ffordd ym maes gwyddoniaeth a pheirianneg niwclear.

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda Dr Edward Jones, arbenigwr economeg gymdeithasol blaenllaw yng Nghymru, i edrych ar enghreifftiau ar draws y byd o sut y gellir gwireddu buddion cymunedol yn sgil prosiectau isadeiledd. Bydd y gwaith hwn yn ein helpu i ddatblygu syniadau ar gyfer uchafu'r gyfleoedd i Ogledd Cymru o fuddsoddiad niwclear.

Edrychwn ymlaen at rannu gwaith Dr Ed yn y flwyddyn newydd, yn ogystal â chydweithio pellach gyda'n cyfeillion yn yr NFI a'r Brifysgol yn ehangach.

10 ATGYFNERTHU EIN RHWYDWAITH

CEFNOGI BUSNESAU BACH, CYFOETHOGI EIN TÎM

Yn ystod 2024, rydym wedi bod yn gweithio gyda busnesau bach arbenigol i'n helpu gyda ffrydiau gwaith allweddol, gan gynnwys gwerth cymdeithasol, gweithgareddau ymgysylltu ac adeiladu eiriolaeth.

Mae'r cwmnïau hyn yn cyfoethogi arbenigedd Cwmni Egino ac yn dod â phrofiad a chapasiti gwerthfawr i atgyfnerthu ein tîm. Rydym yn falch o ddweud bod cyfran sylweddol o'n teulu estynedig wedi'u lleoli yng Nghymru, a Gogledd Cymru yn bennaf.

Mae wedi bod yn galonogol iawn gweld cydberthnasau gwaith yn cael eu hadeiladu rhwng y cwmnïau hyn a chyfleoedd iddyn nhw gydweithio ar brosiectau eraill, y tu hwnt i'r trefniadau gyda Chwmni Egino.

Ers mis Ionawr, rydym wedi gwario dros £450,000 yng Nghymru ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogaeth - unwaith eto, mae'r rhan fwyaf o'r gwariant wedi bod o fewn yn ein rhanbarth.

Gall contractau cymharol fach hyd yn oed wneud gwahaniaeth sylweddol i'r economi ranbarthol a chynaliadwyedd ein cymunedau a byddwn yn parhau i gefnogi busnesau lleol lle bynnag y bo modd.

11 DOD Â'R RHANBARTH A'R SECTOR YNGHYD

DIGWYDDIAD ‘GWIREDDU’R CYFLE NIWCLEAR’

Yn ddiweddar, cynhaliwyd digwyddiad ym Mangor ar y cyd â Fforwm Niwclear Cymru i drafod sut y gall Gogledd Cymru fanteisio ar y cyfle sylweddol o fuddsoddiad niwclear newydd yn y rhanbarth. Doedd y digwyddiad ddim yn unig i bobl sy’n gweithio’n y diwydiant niwclear - roedd wedi’i anelu at unrhyw un sydd â diddordeb yn nyfodol economaidd-gymdeithasol y rhanbarth.

Roedd yn wych gweld cymaint o bobl â safbwyntiau mor eang ac amrywiol yn dod at ei gilydd i drafod sut y gall Gogledd Cymru fanteisio o’r sector niwclear yn y dyfodol. Cafwyd cyfres o drafodaethau cyfoethog a thasgau ymarferol i archwilio beth mae 'manteisio ar y cyfle niwclear' yn ei olygu yn ymarferol, a nodwyd nifer o feysydd ar gyfer gweithredu’n y dyfodol.

Sbardunodd y digwyddiad sgwrs bwysig rhwng rhanddeiliaid ar draws sectorau. Rydyn ni wrthi’n crynhoi'r pwyntiau allweddol a godwyd yn ystod y digwyddiad a byddwn yn eu rhannu dros yr wythnosau nesaf. Rydym hefyd yn ystyried pa gamau sydd eu hangen nesaf i fwrw ymlaen â'r sgwrs.

12 EDRYCH YMLAEN AT 2025

ADEILADU AR FOMENTWM 2024

Rydym wedi mwynhau ein taith drwy 2024 yn fawr, ac rydym eisoes wedi dechrau cynllunio gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn newydd i gynnal y momentwm.

Byddwn yn parhau i rannu ein gwaith a’n gwybodaeth, gan weithio gydag eraill i gryfhau a gwireddu'r rhagolygon ar gyfer buddsoddiad yng Ngogledd Cymru, a chefnogi ein partneriaid - gan gynnwys Llywodraethau Cymru a'r DU - i ddelifro rhaglen niwclear y DU.

Mae gennym gynlluniau ar gyfer cyfres o weminarau 'cinio a dysgu' yn ogystal â phrosiectau cydweithredol i hyrwyddo buddion i'r rhanbarth felly gwyliwch y gofod hwn!

Diolch i bawb sydd wedi cefnogi a chydweithio gyda Cwmni Egino dros y 12 mis diwethaf.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd iach a llewyrchus i chi oll.

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA

MERRY CHRISTMAS AND A
HAPPY NEW YEAR

gwybodaeth@cwmniegino.wales
www.cwmniegino.wales